Cyngor Dinas Bangor

Cofnodion Cyfarfod Eithriadol Cyngor

Dydd Llun 21 Medi 2026, Neuadd Penrhyn, 4pm

Presenoldeb

Cynghorwyr:	Cyng: Delyth Russel (Maer), Jackie Spence (Dirprwy Faer), John Wyn Williams, Gareth Roberts, Eirian Williams Roberts, Huw Wyn Jones, Elin Walker Jones, Gwynant Roberts, Samuel Njoku, John Wynn Jones, Medwyn Hughes, Lisa Toth, Salamatu Fada, Md Mustakim Raza, Dylan Fernley
Swyddogion:	Lisa Goodier, Cyfarwyddwr Dros Dro y Ddinas Carwyn Davies, Swyddog Gweinyddol Pete Davies, Cyfathrebu (Ar-lein)
Eraill:	Claire Lingard, Working the Greener Way Online (Internal Auditor) (Ar-lein) Derek Kemp, BC&A Accounting Solutions Ltd (Ar-lein) Melodie Beavers, BC&A Accounting Solutions Ltd (Ar-lein) Nick Rayner, Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau:	Cyng: Nigel Pickavance, Jac Jolly, Gareth Parry, Steve Bell
Absennol heb ymddiheuriad:	Cyng Nick Pritchard

Dechreuodd y cyfarfod am 4 y prynhawn.

Eitem	Cyfeirnod	Gweithred
1.	**FC57/26**	**Ymddiheuriadau:**
	a)	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr: Nigel Pickavance, Nick Pritchard, Jac Jolly, Gareth Parry, Steve Bell.
	b)	Absennol heb ymddiheuriad: Y Cynghorydd Nick Pritchard.
2.	**FC58/26**	**Datganiad o Ddiddordeb Ariannol neu Gysylltiad Personol:** Dim.
3.	**FC59/26**	**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd:** Yn unol ag adran 1, paragraff 2 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, caiff y wasg a'r cyhoedd eu gwahardd rhag y cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, gan y byddai cyhoeddi'r materion yn niweidiol i'r budd cyhoeddus oherwydd natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod. **Penderfynwyd:** Gwahardd y wasg a'r cyhoedd rhag y cyfarfod er mwyn trafod yr eitem nesaf ar yr agenda.

4. **FC60/26** **Cyflwyno'r Cyfrifon wedi'u hail-adrodd ar gyfer 2025/26:**
Cyflwynwyd y cyfrifon wedi'u hail-adrodd ar gyfer 2025/26 i'r Cyngor Llawn.

5. **FC61/26** **Cyflwyno canfyddiadau'r Archwiliad Mewnol ar gyfer 2025/26:**
Cyflwynwyd yr Archwiliad Mewnol diwygiedig i'r Cyngor Llawn.

6. **FC62/26** **I ddirymu'r Ffurflen Flynyddol flaenorol ar gyfer 2025/26:**

Penderfyniad:
Penderfynodd y cynghorwyr yn unfrydol ddirymu'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2025/26 a oedd wedi'i llunio a'i chyhoeddi'n flaenorol.

7. **FC63/26** **I ddirymu Adroddiad Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2025/26:**

Penderfynwyd:
Penderfynodd y Cynghorwyr yn unfrydol ddirymu Adroddiad Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2025/26.

8. **FC64/26** **Cymeradwyo'r Cyfrifon wedi'u hail-lunio ar gyfer 2025/26 a baratowyd gan BC&A Accounting Solutions Ltd:**

Penderfyniad:
Penderfynodd y Cynghorwyr yn unfrydol gymeradwyo'r Cyfrifon ar gyfer 2025/26 a baratowyd gan BC&A Accounting Solutions Ltd.

9. **FC65/26** **Cymeradwyo'r adroddiad archwilio mewnol fforensig gan WGW Online LLP:**

Penderfyniad:
Penderfynodd y cynghorwyr yn unfrydol gymeradwyo'r adroddiad archwilio mewnol fforensig gan WGW Online LLP.

10. **FC66/26** **Derbyn yr holl argymhellion yn yr adroddiad archwilio mewnol fforensig:**

Penderfyniad:
Penderfynodd y cynghorwyr yn unfrydol dderbyn yr holl argymhellion yn yr adroddiad archwilio mewnol fforensig.

11. **FC67/26** **Cyfarwyddo'r Swyddog Priodol Dros Dro i gyflwyno'r datganiadau cyfrifyddu gwreiddiol ac Adroddiad Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd, adroddiad BC&A Accounting Solutions Ltd a'r Adroddiad Archwilio Mewnol (ynghyd ag atodiadau), yn ogystal â'r wybodaeth ategol ofynnol, i Archwilio Cymru:**

Penderfynwyd:
Penderfynodd y cynghorwyr yn unfrydol gyfarwyddo'r Swyddog Priodol Dros Dro i anfon y dogfennau uchod at Archwilio Cymru.

12. **FC68/26** **Cyfarwyddo'r Swyddog Priodol Dros Dro i gyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol a'r Datganiad Cyfrifyddu diwygiedig ar wefan swyddogol y Cyngor.**

Penderfynwyd:
Penderfynodd y Cynghorwyr yn unfrydol gyfarwyddo'r Swyddog Priodol Dros Dro i gyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol a'r Datganiad Cyfrifyddu ar wefan swyddogol y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.25 yh

Wedi'i lofnodi gan: ..... **Delyth Russell, Maer**

Dyddiad: .....